www.breaksnorthwales.co.uk

www.adventure-northwales.com

www.golf-northwales.co.uk

www.walkingnorthwales.co.uk

www.moviemapnorthwales.co.uk

www.eventsnorthwales.co.uk

www.gardensnorthwales.co.uk

www.attractionsnorthwales.co.uk

www.walledtowns.co.uk

www.giantsnorthwales.co.uk

egroeso

bwletin electronig gan
Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru

Croeso cynnes yn fyw ac yn iach yng Ngogledd Cymru

01745 589020
www.tpnw.org

Croeso cynnes yn fyw ac yn iach yng Ngogledd Cymru

Ni sy'n rhoi'r croeso mwyaf cynnes yn y Deyrnas Unedig.

Dyna y mae penaethiaid twristiaeth yng Ngogledd Cymru yn ei gredu ar sail darganfyddiadau arolwg cynhwysfawr o ymwelwyr â'r rhanbarth.

Yn ôl Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru, y corff sy'n gyfrifol am ddatblygiad strategol twristiaeth yma, maen nhw wrth eu bodd gyda chasgliadau'r astudiaeth.

Comisiynwyd yr arolwg gan Croeso Cymru a'i ariannu'n rhannol gan y Bartneriaeth Twristiaeth ac awdurdodau lleol y rhanbarth.

Dyma rai o'r prif ddarganfyddiadau:

roedd 99 y cant o ymwelwyr yn gadarnhaol ynglŷn â Gogledd Cymru fel lle i ymweld ag o, gyda 56 y cant yn dweud ei fod yn rhagorol

dywedodd 90 y cant o ymwelwyr fod y bobl yma'n gyfeillgar

roedd 87 y cant yn gwerthfawrogi'r croeso cynnes a gawsant

roedd 93 y cant yn bwriadu ymweld â Gogledd Cymru eto ac roedd 96 y cant yn debygol o argymell Gogledd Cymru i'w teulu a'u ffrindiau

Cyfwelwyd mwy na 2,600 o ymwelwyr mewn 24 lleoliad yng Ngogledd Cymru sy'n golygu ei fod yn ddarlun "cywir a chynrychiadol o safbwynt gwyddonol" o'u safbwyntiau.

Mae Andrew Forfar, Rheolwr Datblygu Busnes y Bartneriaeth Twristiaeth, yn credu bod yr adroddiad yn profi fod y croeso Cymreig enwog yn fyw ac yn iach ar draws Gogledd Cymru.

Meddai Mr Forfar: "Mae yna rai ymatebion cadarnhaol dros ben yn yr arolwg, yn enwedig o ran cynhesrwydd y croeso a'r mwynhad o'r ymweliad â Gogledd Cymru.

"Mae'r ffaith fod 98 y cant o bobl wedi cael profiad da neu ragorol yng Ngogledd Cymru yn wych, yn enwedig o ystyried bod 89 y cant

o'r bobl yna wedi dweud ei fod yn rhagorol.

"Alla' i ddim dychmygu fod yna lawer o lefydd yn y byd a all frolio am gyfradd lwyddiant mor aruthrol, ac rydym yn hoffi meddwl mai Gogledd Cymru sy'n cynnig y croeso mwyaf twymgalon yn y Deyrnas Unedig.

"Yr hyn y mae'n ei ddweud wrthym yw ein bod yn gwneud llawer o bethau'n iawn o ran twristiaeth a'r hyn sydd gennym i'w gynnig i'r ymwelydd.

"Mae hyn yn glod i'r bobl sy'n gweithio yn y maes, nhw ydy wyneb twristiaeth yng Ngogledd Cymru - ac maen nhw'n gwneud pethau'n iawn yn y mwyafrif llethol o achosion.

"Os ydym yn cymharu lle'r ydym rŵan gyda lle'r oedd Gogledd Cymru 10 mlynedd yn ôl, mae ansawdd y llety, yr atyniadau a'r gwasanaeth wedi gwella'n ddramatig.

"Rydym yn cynnig yr hyn mae pobl ei eisiau a'r hyn maen nhw'n ei fynnu o ran ansawdd a gwasanaeth.

"Fel y sefydliad sydd â chyfrifoldeb strategol am yr economi ymwelwyr yng Ngogledd Cymru, mae darganfyddiadau'r adroddiad yn destun balchder mawr.

"Gweithio mewn partneriaeth â'r fasnach, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol yw'r gyfrinach i'n llwyddiant.

"Maen nhw wedi cydio yn y syniad cyfan a bu eu cyfraniad yn bwysig dros ben.

"Ar ôl dweud hynny, dydyn ni'n sicr ddim yn gorffwys ar ein rhwyfau oherwydd mae yna bob amser le i wella. Felly, ochr yn ochr â'n partneriaid, byddwn yn parhau â'n hymgyrch am ragoriaeth.

Mae'r newyddion yn dilyn yn dynn ar sodlau lansio strategaeth bum mlynedd uchelgeisiol y Bartneriaeth Twristiaeth.

Ei nod yw cynyddu gwariant gan ymwelwyr i £2 biliwn y flwyddyn a gosod Gogledd Cymru ymysg pump uchaf y cyrchfannau ymwelwyr.

Ychwanegodd Mr Forfar: "Dim ond darn o bapur neu ddogfen electronig yw strategaeth. Ein partneriaid sy'n helpu i roi bywyd i'r strategaeth – mae arnom angen partneriaid i gyflawni'r strategaeth honno.

"Mae'r darganfyddiadau yma o gymorth eithriadol i ni fel sail i'r hyn a wnawn ac mae'n rhoi tawelwch meddwl ein bod yn gwneud y pethau iawn yn y ffordd iawn.

"Mae yna elfennau o'r adroddiad sy'n dweud wrthym y gallem fod yn gwneud pethau'n well, ond rydym yn sôn am fân welliannau yn hytrach na newidiadau sylfaenol.

"Gallwn weithio ar y meysydd yma trwy ein strategaeth bum mlynedd, sydd newydd ei chyhoeddi, sy'n ceisio ein helpu i gynyddu gwariant gan ymwelwyr i £2 biliwn a gosod Gogledd Cymru ymhlith y pum cyrchfan uchaf i ymwelwyr.

www.tpnw.org